

Trwy e-bost

24/10/2017

Cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i BGC Caerdydd

Annwyl Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a swyddogion cynorthwyol,

Diolch am ofyn am fy nghyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion llesiant drafft, sef:

- Prifddinas sy'n gweithio i Gymru.
- Caiff twf ym mhoblogaeth Caerdydd ei reoli mewn dull cydnerth.
- Cymunedau diogel, hyderus a grymus.
- Mae Caerdydd yn brifddinas wych i dyfu i fyny ynddi.
- Cynorthwyo pobl i symud allan o dlodi.
- Mae Caerdydd yn brifddinas wych i dyfu'n hŷn ynddi.
- Moderneiddio ac integreiddio'n gwasanaethau cyhoeddus.

Darganfu fy nhîm bod siarad â chi yn rheolaidd a gweld eich gwaith yn datblygu wedi rhoi dealltwriaeth i ni o'r modd yr ydych yn gweithio gyda'ch gilydd.

Gobeithio eich bod chithau hefyd o'r farn bod y cysylltu hwn wedi bod yn ddefnyddiol i chi. Roeddwn yn awyddus i sicrhau bod fy nghyngor yn ddefnyddiol i chi a'r cyd-destun yr ydych yn gweithio o'i fewn. Rwyf yn awr yn adeiladu dealltwriaeth o hyn ar draws Cymru gan ymroi i rannu'r hyn a ddysgais am wahanol ymagweddau, am yr hyn sy'n llwyddiannus a'r hyn nad yw'n llwyddiannus.

Buaswn yn eich annog i ddarllen hwn ynghyd â'm hymateb i'ch asesiad llesiant. Roeddwn yn awyddus iddo 'edrych ymlaen' yn hytrach nag 'edrych yn ôl', gan eich helpu i ystyried sut i fynd i'r afael ag asesu a chynllunio llesiant yn barhaus. Fel y gwyddoch, yn ddiweddar cyhoeddais ['Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory'](#) sy'n amlygu canfyddiadau allweddol ac argymhellion ar gyfer pob BGC a chyrrff cyhoeddus ar feysydd allweddol lle mae angen newid ar gyfer gwneud gwell penderfyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bwriedir hefyd i'r ddau adnodd hwn weithredu fel cyngor i chi.

Nid rhoi fy marn ar eich amcanion llesiant neu eich cynllun drafft yw pwrpas y cyngor hwn. Mae'r rhain i'w penderfynu a'u perchenogi gennych chi, fel BGC cydweithredol. Yn hytrach, bwriedir i'r cyngor hwn eich helpu i herio'r modd y mae pethau'n cael eu gwneud a dangos sut yr ydych yn gwneud hynny drwy eich cynllun llesiant. Felly, mae rhan gyntaf fy nghyngor yn ymwneud â'r modd y gallech weithio gyda'ch gilydd yn wahanol, gan ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio i herio busnes-fel-arfer wrth gymryd camau i

gwrdd â'ch amcanion. Mae ail ran fy nghyngor yn seiliedig ar eich amcanion drafft ac yn rhoi anogaeth, adnoddau a chysylltiadau i'ch helpu i ddangos, drwy eich cynllun llesiant, eich bod wedi defnyddio'r pum dull o weithio a'r saith nod llesiant i lunio eich camau.

Mabwysiadu gwahanol ddulliau o weithio i gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:

Rwyf wedi dweud wrth bob BGC, wrth iddynt bennu eu camau a chyhoeddi cynllun llesiant, y buaswn yn hoffi deall beth a olyga hyn yn benodol i'w hardal hwy, a sut mae hyn yn wahanol i'r hyn sydd wedi ei wneud yn y gorffennol. Wrth ddweud hyn, yr hyn a olygaf yw pa wasanaethau fydd yn cael eu heffeithio, pa ymrwymadau a wnaed gennych a sut mae pethau'n newid yng Nghaerdydd? Mae gwireddu uchelgeisiau'r Ddeddf hon yn ymwneud â 'beth', a 'sut' h.y. beth ydych chi'n ei wneud i gyfrannu at ein cydweledigaeth o'r saith nod llesiant cenedlaethol? Mae'r nodau'n cydnabod bod cysylltiad rhwng datblygu cynaliadwy a'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo, yr economi yr ydym yn gweithio ynddo, y gymdeithas yr ydym yn ei mwynhau a'r diwylliannau yr ydym yn eu rhannu â phobl ac ansawdd eu bywyd? Felly beth rydych chi'n mynd i'w wneud gyda'ch gilydd sy'n wahanol, i gwrdd â'r nodau hyn? Sut ydych chi'n defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i lunio eich gweithgareddau ar gyfer Caerdydd?

Fel y dywedais wrth FGCau, gwn nad ydyw'r atebion i gyd gennych eto, gan eich bod yn datblygu eich ymagwedd tuag at weithio'n wahanol gyda'ch gilydd ac ymgynghori ar eich cynlluniau drafft. Mae'n wirioneddol galonogol i weld eich bod yn cysylltu'ch amcanion drafft a'r camau yr ydych yn eu cymryd â chyd-destun Caerdydd ac yn ceisio egluro eich cyfraniadau i'r saith nod llesiant. Gobeithiaf y bydd y cyngor hwn yn eich helpu i wneud hyn yn y modd gorau posibl a buaswn yn eich cynghori i fod yn ymwybodol o'r angen i ddangos sut mae eich BGC wedi ystyried y canlynol mewn perthynas â phob un o'ch amcanion:

- **Hirdymor:** Fel y dywedais yn fy ymateb i'ch asesiad llesiant, mae siarad am 'Gaerdydd Heddiw a Chaerdydd Yfory' i'w argymhell. Gwelaf eich bod wedi meddwl am dueddiadau'r hirdymor yn eich cynllun drafft. Mae eich ffofws, fel y gellir deall, ar Gaerdydd a gwasanaethau cyhoeddus, felly buaswn yn eich cynghori i adeiladu ar hyn o bersbectif sy'n edrych o'r tu allan i Gaerdydd wrth i chi feddwl am y camau y gallech eu cymryd. Beth ydych chi'n ei ddeall am yr hyn sy'n digwydd yng ngweddill Cymru a sut y bydd hyn yn effeithio ar Gaerdydd? Beth yw'r tueddiadau byd-eang hirdymor, cyfleoedd, risgiau a senarios tebygol ar gyfer y mater hwn? Oes yna fylchau ar hyn o bryd yn eich data neu eich dealltwriaeth? Beth sydd angen ei weld ymlaen llaw neu pa wybodaeth am dueddiadau yn y dyfodol sydd eu hangen arnoch i ddeall y mater hwn yn well? Pa allu, hyder ac arbenigedd sydd gennych i lenwi'r bylchau mewn gwybodaeth? I drwytho eich gweithgareddau, bydd angen i chi fapio ac ystyried tueddiadau'r dyfodol ar gyfer pob un o'ch amcanion. Mae fy swyddfa yn gweithio gydag eraill i adeiladu gallu yn y maes hwn, ac fel y gŵyr eich tîm cynorthwyol, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ychwanegu at adnoddau'r adroddiad 'Tueddiadau'r Dyfodol', y dylech fod yn gwneud y defnydd mwyaf posibl ohono drwy gyrchu Objective Connect neu drwy gysylltu â David Thomas. Mae adroddiad [Ysgol Oxford Martin 'Now for the long-term'](#) yn dangos tueddiadau'r dyfodol yn fyd-eang a chenedlaethol, tueddiadau y bydd angen i ni i gyd ymateb iddynt wrth roi datblygu cynaliadwy ar waith.



- **Atal:** Wrth ystyried y mater hwn, oes gennych chi ddealltwriaeth o'r hyn yr ydych yn ceisio ei atal? Beth sydd wrth wraidd y mater a phryd fyddai'r amser gorau i ymyrryd? Ydych chi'n glir am ba fath o atal sydd ei angen: atal sylfaenol h.y. ceisio atal rhywbeth rhag digwydd; atal eilaidd h.y. atal rhywbeth rhag gwaethygu; neu atal trydyddol h.y. lliniaru effaith rhywbeth â ganddo effeithiau parhaus. Dyma'r gwahaniaeth rhwng annog rhywun i wisgo helmed feicio (atal niwed i'r pen cyn iddo ddigwydd); gosod rhywun yn yr ystum adferol os yr ydynt wedi syrthio oddi ar eu beic (atal eilaidd, sef atal niwed rhag gwaethygu) a chwmsela yn dilyn y ddamwain (atal trydyddol i helpu anafiadau parhaus rhag gwaethygu). Mae llawer o FGCau heb ddefnyddio'u hasesiadau i ddeall yn drwyadl y sefyllfa bresennol a graddfa a natur yr ymateb sy'n ofynnol. Ar hyn o bryd, mae eich camau lefel uchel yn galonogol ond nid yw'n amlwg sut y bydd gwasanaethau ac adnoddau yn newid Caerdydd a'i gwneud yn fwy ataliol.

Rwy'n gwerthfawrogi nad ydych eto'n gwybod beth yw'r darlun cyfan, ond hoffwn weld pob BGC yn archwilio sut y maent yn chwalu cylchoedd a thwrio'n ddyfnach i mewn i ddata i weld y negeseuon sydd ymhlyg yn y data, a thrwytho eich camau drwy ddeall yn well achosion ac effeithiau materion allweddol a thueddiadau.

- **Cydweithio:** Mae'n bwysig fod y bobl sy'n eistedd o gwmpas bwrdd y BGC yn medru dwyn gyda hwynt yr ystod orau o fewnwelediadau, heriau adeiladol, data a datrysiadau i'r BGC. A yw'r bobl iawn gennych o gwmpas y bwrdd, ar y lefel iawn ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y mater hwn? Pwy arall allai fod arnoch ei angen i gydweithio gyda chi i'ch helpu i ddeall hyn yn well? Fel yr argymhellwyd yn fy adroddiad ar yr Asesiadau Llesiant, mae hwn yn amser da i adolygu aelodaeth wahoddedig y BGC ac ystyried pwy yw'r bobl 'anarferol' y gall y bydd angen i chi weithio gyda hwynt i gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn?

Wrth gyflawni'r camau, sut allai eich sefydliadau gydweithio? Bydd angen i chi ddangos sut mae eich BGC yn ystyried y camau sydd angen i chi eu cymryd gyda'ch gilydd ac ar draws ffiniau sefydliadol er mwyn cwrdd â'ch amcanion yn fwy effeithiol. Gallai hyn gynnwys cyd-ariannu cefnogaeth, cyd-leoli staff, chwalu strwythurau traddodiadol, trefnu cyfnewid swyddi a secondiadau ac o bwys mawr, grynhoi adnoddau. Byddaf yn dymuno gweld sut yr ydych wedi ystyried y manteision hyn a sut mae'r camau y byddwch yn eu cymryd yn eich symud tuag at gyflawni'r cydweithio hyn.

- **Integreiddio:** Ar gyfer pob amcan, sut ydych chi'n mynd i symud i ffwrdd o'r arfer o ddim ond gwneud rhywbeth sy'n cwrdd â'r amcan, ac yn hytrach, ddangos eich bod yn cymryd camau sy'n maximeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau? Yn hytrach nag edrych ar y mater mewn dull traddodiadol, cyffredinol, ydych chi wedi edrych ar y diffiniad ar gyfer pob un o'r nodau i ehangu eich dealltwriaeth o lesiant ar gyfer y mater a'r cyfleoedd a allai fod ar gael ar gyfer cwrdd â'r nodau hyn drwy bob un o'ch amcanion? Pa mor dda ydych chi'n deall y cyfraniad a wneir gan eich sefydliad ar hyn o bryd i'r amcan hwn? Ac a ydych chi'n deall pa mor wahanol yw'r cyfraniad sydd angen i chi ei wneud i ddwyn yr amcan hwn yn ei flaen? Sut fedrwch chi gynllunio'r hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill yn eich sefydliadau, y

strategaethau a'r cynlluniau ar lefel rhanbarthol neu genedlaethol, i gysylltu ag eraill wrth gyflawni'r amcan hwn? Wrth wneud hyn, pa rwystrau neu densiynau eraill sydd wedi codi a pha gamau fedrwch chi (neu eraill) eu cymryd i'w dileu? Pwy arall sydd eu hangen o gwmpas bwrdd y BGC i'ch helpu i gydgyfylltu'r broses o wneud penderfyniadau a gwella llesiant ar gyfer y mater hwn?

- **Ymgyfraniad:** Gwn eich bod wedi gwneud ymdrech i feddwl sut i ennyn ymgyfraniad pobl wrth i chi gyflawni eich amcanion llesiant a'ch camau. Rwyf yn awyddus i weld ffocws parhaus yn cael ei ddangos ar hyn gan bob BGC. Wrth gyflawni hyn sut ydych chi'n cymryd camau i ddeall profiadau bywyd pobl yn eich ardal a sut mae hyn yn llunio eich gweithredu? Sut ydych chi'n ymroi i ennyn ymgyfraniad pobl yn eich penderfyniadau? Sut fedrwch chi gydweithio gydag aelodau'r gymuned wrth gwrdd â'r camau hyn? Fel gyda Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru, pa ddewisiadau sydd yna i ennyn ymgyfraniad pobl â phrofiad o fywyd go iawn ar Fyrddau a grwpiau partneriaeth?

Rwyf yn ailadrodd i holl aelodau BGCau nad busnes-fel-arfer yw gosod amcanion a chymau. Yn y gorffennol rydym wedi pennu themâu a blaenoriaethau a chynlluniau ysgrifenedig sy'n dangos beth yr ydym yn ei wneud p'run bynnag. Hyd yn oed yn awr, er gwaethaf y dystiolaeth yn yr asesiadau sy'n dangos ystod o dueddiadau brawychus, ymddengys fod pob BGC yn ymgysylltu'n unig â thiriogaeth ddiogel a digynnen. Mae addasu eich dull o weithio'n gofyn am ymagwedd sy'n wahanol yn ei hanfod ac mae angen i chi roi amser a gofod i chi eich hunain fel BGC i gwystiynu a ydyw'r ymagweddau presennol tuag at gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn addas ar gyfer y dyfodol ac archwilio pwysau allweddol a thensiynau sy'n codi wrth gyflawni pob un o'ch amcanion. Mae'n amser i archwilio pwysau a thensiynau mewn polisi a darpariaeth, materion yr ydych yn delio â hwynt bob dydd fel arweinwyr eich sefydliadau chi eich hunain.

Mae eich ymagwedd tuag at gynnal sesiynau gweithdy fel rhan o'ch cyfarfodydd BGC a symud allan o ystafelloedd cyfarfod canolfannau dinesig i drafod pa weithrediadau yr ydych yn mynd i'w cyflawni ar y cyd yn rhywbeth yr wyf yn ei argymhell i bob BGC. Rwyf wedi argymhell yn ['Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory'](#) ein bod yn symud i ffwrdd o'r arfer o weld BGCau fel cyfarfod pwyllgor o dan ofal awdurdod lleol, gyda BGCau yn adeiladu cyd-ddealltwriaeth a pharch tuag at broffesiynau ei gilydd. Dylai'r BGC fod yn ymwneud â dull newydd o weithio, nid yn un sy'n cael ei sbarduno gan ddiwylliant un sefydliad. Gall Cadeirydd y BGC, sut a ble mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal a sut y mae'r BGC yn cael ei gefnogi, i gyd newid dulliau o feddwl a chaniatáu ar gyfer her iachach i fusnes-fel-arfer.

Fel arweinyddion prifddinas Caerdydd, gwn eich bod yn eistedd ar lawer o gyfarfodydd a strwythurau partneriaeth a bod gennych ymgyfraniad mewn llawer o gynlluniau. Edrychwch ar y BGC fel cyfle i wisgo'r gwahanol hetiau hynny, i gyflwyno heriau ac fel cyfle i integreiddio a chydweithio ar eich lefel dylanwadol. I'ch cynllun drafft gael ei wireddu, mae angen i'ch arweinyddiaeth dreiddio drwy eich holl sefydliadau. Mae cyfleu i'ch uwch dimau rheoli pam mae gwaith y BGC yn bwysig a defnyddio'r cynllun llesiant i herio arferion presennol o fewn eich adrannau chi eich hunan yn hollbwysig ar gyfer creu'r newid mewn diwylliant a hyrwyddir gan eich cynllun drafft. Sut fedrwch chi alluogi eich staff i fynychu cyfarfodydd partneriaeth, weithredu ar waith y BGC a

gwneud i bethau ddigwydd? Ar draws Cymru, rwyf wedi bod yn clywed bod hyn yn arbennig o berthnasol i reolaeth ganol, sydd efallai'n ymdrechu i gyfaddawdu fframweithiau presennol gyda'r Ddeddf. Un o fy swyddogaethau i yw adnabod a lleihau rhwystrau, ond mae hyn hefyd yn wir amdanoch chithau - fel uwch arweinwyr, eich rôl chithau hefyd yw herio eich rheolwyr i weithio'n wahanol a'u darbwyllo ei bod yn 'saff i fethu'.

Bydd angen i chi ddangos sut mae pob un o'r cyrff cyhoeddus a gynrychiolir yn eich BGC yn cymryd pob cam posibl i ymarfer eu swyddogaethau i gwrdd ag amcanion y BGC. Rwy'n cydnabod y gallai hyn fod yn heriol yn ystod cyfnodau cyntaf gweithrediad y Ddeddf gan nad yw amcanion cyrff cyhoeddus unigol eto wedi eu penderfynu. Ond, tra fy mod yn cydymdeimlo â'r angen i FGau a chyrff cyhoeddus gael amser i weithio tuag at aliniad byddaf yn dymuno gweld nad yw gwaith y BGC yn cael ei weld fel rhywbeth ar wahân i flaenoriaethau'r cyrff sy'n aelodau ohono. Dros yr ychydig fisoedd nesaf, rwy'n awyddus i weld BGCau yn dangos sut gall pob aelod facsimeiddio eu cyfraniad, er enghraifft, i gymdeithas carbon isel, ecosystemau iach, cymunedau diogel â chysylltiadau da, neu amddiffyn yr iaith Gymraeg, drwy eu hamcanion a'r camau y maent wedi eu gosod.

Rwyf yn gweld gwahanol fodelau o gydweithio a chynorthwyo BGCau ar draws y wlad. Lle ceir ymrwymiad gan fwy nag un sefydliad sy'n aelodau o'r BGC, mae yna gydnabyddiaeth sylfaenol bod pobl yn dymuno cymryd rhan yn yr her hon. Buaswn yn cynghori pob BGC i symud tuag at greu trefniadau gwaith agosach ar draws eich sefydliadau, tîm aml-asiantaeth rhithwir gydag uwch arweinydd neu secondiadau mwy ffurfiol a chyd-leoliadau. Mae yna nifer o adnoddau a allai fod yn ddefnyddiol, megis [Designing Multi-Agency Partnerships; Leading Culture Change](#) a [Stepping up: a framework for public sector leadership on sustainability](#). Mae mabwysiadu ymagwedd wahanol yn heriol ac yn ei gwneud yn ofynnol i chi, pobl mewn sefyllfaoedd o arweinyddiaeth, nid eich swyddogion cynorthwyol, i chwarae eich rhan a bod yn ddewr wrth sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen. Gobeithio y byddwch yn parhau i arwain ymagwedd seiliedig ar wybodaeth tuag at ddarganfod gwahanol ddatrysiadau i'r modd y mae pethau wedi cael eu gwneud yn y gorffennol.

Cyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:

O'r sgysiau rheolaidd yr ydych wedi eu cynnal gyda fy nhîm, gwn fod eich swyddogion cynorthwyol wedi gweithio'n galed dros yr haf i fanteisio ar ganfyddiadau eich asesiad, i gasglu gwybodaeth broffesiynol a drafftio eich amcanion a'ch camau. Yn gyffredinol, wrth i chi fwrw ati i gynnal gweithdai i archwilio pob un o'ch amcanion, credaf y bydd ymroi i ddeall y gwahaniaethau ar draws y ddinas yn helpu i drwytho'r camau y byddwch yn penderfynu eu cymryd. Bydd defnyddio'n pum dull o weithio yn gyson i herio eich ymagwedd arferol ac ymroi i facsimeiddio eich cyfraniad tuag at y saith nod llesiant ym mhob un o'ch amcanion yn rhoi fframwaith i chi ar gyfer cynllunio a chyflawni.

Dylech fod yn ystyried pa wasanaethau lleol fydd yn cael eu heffeithio os byddwch yn ailgyfeirio eich buddsoddiad? Oes yna dueddiadau hirdymor ar gyfer cymunedau penodol a fydd yn eich barn yn gwaethygu os na fyddwch yn gweithredu? Pa gymunedau fyddai'n elwa a sut? Beth fedrwch chi ei wneud yn wahanol sy'n cyfrannu i bob un o'r saith nod? Gwn y byddwch yn parhau i weithio ar hyn drwy gydol y flwyddyn nesaf a'ch bod

wedi ymgysylltu â menter Y Lab i redeg Canolfan Ddinesig y Ddinas i helpu i ystyried datrysiadau newydd. Bydd gennyf wir ddiddordeb i weld y dysgu hwn yn cael ei rannu ac rwyf eisiau gweld sut yr ydych yn dangos y meddylfryd hwn yn eich cynllun llesiant cyhoeddedig, hyd yn oed os bydd hwn yn datgan nad yw'r atebion gennyf eto ac yn egluro beth yr ydych yn bwriadu ei wneud yn ei gylch!

- **Prifddinas sy'n gweithio i Gymru.**

Mae twf ac adferiad Caerdydd yn enghraifft dda o ba mor gyflym mae pethau'n gallu newid o fewn cenedlaeth. Fel yr ydych wedi cydnabod, mae'r ddinas yn mwynhau proffil rhyngwladol uwch, allbynnau economaidd cadarnhaol ac awyrgylch diwylliannol sy'n ffynnu. Mae cwrdd â'r amcan hwn yn sicr yn dibynnu ar ddathlu ac adeiladu ar y ffactorau cadarnhaol hyn, ond wrth wneud hynny, rhaid i chi ystyried sut y gall eich gweithrediadau achosi newid cyflym ar gyfer y genhedlaeth nesaf ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol wedi hynny.

Mae'n amlwg eich bod yn meddwl am y peryglon a'r cyfleoedd sy'n wynebu Caerdydd yn y tymor canolig, megis Brexit, megis sut i ddenu buddsoddiad a darparu digwyddiadau o bwys ar gyfer y ddinas. Buaswn yn awgrymu mai camau tymor byr ydyw'r rhain gyda chanlyniadau hirdymor, ac mae angen i chi ystyried ymhellach senarios ar gyfer Caerdydd a chymryd camau i naill ai atal neu annog y rhain. Er enghraifft, mae deall effaith Brexit yn rhywbeth sydd angen ymgymryd ag ef yn gyflym fel rhan o'ch asesiad llesiant parhaol o Gaerdydd. Gall yr wybodaeth hon, wedyn, roi tystiolaeth i chi ar gyfer amlinellu'r camau tymor hwy y byddwch chi, fel BGC, yn eu cymryd i reoli, lliniaru a datrys materion a fydd yn dod i'r amlwg. Mae ymroi i ddenu mwy o ddigwyddiadau mawr i'r ddinas hefyd yn weithred tymor canolig. Sut fedrwyd chi wneud hyn mewn modd sy'n maximeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant? A ellid buddsoddi'r elw o'r digwyddiadau mawr hyn mewn cynlluniau a fydd yn lleihau allyriadau carbon, o gofio y bydd llawer yn teithio i fynychu digwyddiadau megis adeg Gêm Derfynol Cynghrair y Pencampwyr.

Mae Caerdydd hefyd yn profi cynnydd mewn twristiaeth a bydd denu mwy o ddigwyddiadau mawr i'r ddinas yn cynyddu hyn yn y blynyddoedd sydd i ddod. Sut fedrwyd chi annog twristiaeth gynaliadwy; teithio llesol; creu cyfleoedd busnes bach a lleol ar draws y ddinas. Mae BGCau eraill hefyd yn ymroi i gynyddu nifer twristiaid a thyfu eu heconomi. Bydd Caerdydd yn gyrchfan i lawer, felly sut fedrwyd chi weithio gyda'ch gilydd i annog pobl i archwilio corneli eraill o Gymru mewn dull cynaliadwy? Gall annog ffocws ar ddiwylliant ac iaith y ddinas, cydlynid a harddwch cymunedau, a'r amgylchedd hardd sy'n amgylchynu Caerdydd hefyd helpu i facsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau. A fedrai hyn hefyd ennyn ymgyfraniad pobl mewn ymgymryd â phrentisiaethau neu hyfforddiant mewn cynorthwyo pobl i symud allan o dloti?

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gyfle cyffrous i dde Cymru, ond rwyf eisoes wedi mynegi pryder am fod y fargen yn cael ei phrosesu gan rai sy'n gweld y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel rhywbeth i asesu gweithrediadau yn ei herbyn, yn hytrach na phroses ar gyfer llunio'r pethau a gynllunnir ac a gytunir arnynt. Fel canolbwynt economaidd y rhanbarth rydych chi yn chwarae rôl ganolog wrth lywio'r cyfleoedd hyn. Buaswn yn cynghori bod angen i chi, fel arweinwyr, ddylanwadu ar y trafodaethau presennol gan gadw mewn golwg lesiant

economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol pobl ar draws y rhanbarth. Amcangyfrifir gan Sefydliad Joseph Rowntree bod tlodi'n costio £2.2bilwin i'r ardal gyfan bob blwyddyn. Ychydig o effaith a gaiff cynyddu Cynnyrch Domestig Gros (GDP) ar leihau anghydraddoldeb, ac mewn wyth o'r deg ardal Awdurdod Lleol yn y rhanbarth, mae tlodi plant yn uwch na chyfartaledd Cymru. Felly, mae dehongli gwerth y Ddinas-Ranbarth fel peth economaidd yn unig yn gamarweiniol. Ydy, mae hwn yn gyfle economaidd cadarnhaol ond sut fedrwn ni gydbwysu'n cyfrifoldebau i ddatblygu dinas-ranbarth sy'n gynaliadwy ac sy'n gosod pobl yn y canol. Gobeithio bod [y llythyr a anfonais i'r rhai a ymglyfrannodd yn Rhagfyr 2016](#) yn rhoi i chi beth cyngor ar y mater, ac [yn ddiweddar gwneuthum sylw](#) hefyd mewn ymateb i adroddiad Dr Mark Lang a'r Athro Terry Marsden "[Re-thinking Growth: Toward the Well-being Economy.](#)"

Mae fy nhîm hefyd wedi bod yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru ar gynigion ar gyfer masnachfrait y Metro a'r rheilffordd. Hyd yn hyn mae hon wedi bod yn ddeialog gadarnhaol ac rwyf wedi rhannu gyda hwynt ein 'Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol', a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r Sefydliad Economeg Newydd, sydd hefyd wedi ei rannu gyda'ch tîm cynorthwyol. Pwrpas y fframwaith hwn (a fwriadwyd yn wreiddiol ar gyfer prosiectau'n ymwneud â seilwaith) yw helpu cyrff cyhoeddus i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel fframwaith ar gyfer meddwl wrth gynllunio prosiectau; gellir hefyd ei ddefnyddio i adolygu cynnydd wrth i'r prosiect ddatblygu. Rydym yn gweithio ar sicrhau bod y fframwaith yn berthnasol i ystod ehangach o brosiectau yn cynnwys datblygu polisi/cynllun. Yn y cyfamser, buaswn yn eich cyngori, fel BGC, i'w ddefnyddio yn eich sesiynau gweithdy a buasai gennym ddiddordeb i glywed unrhyw adborth ar ei ddefnyddioldeb i'ch gwaith.

Cefais fy nghalonogi i'ch gweld yn gwerthfawrogi'r dylanwad eang sydd gennych fel BGC. Buaswn yn cyngori eich bod, fel arweinyddion gwasanaethau cyhoeddus, yn parhau i ystyried pa gamau y gallwch eu cymryd neu ba ddylanwad y gallwch ei ddefnyddio i gwrdd â'r amcan hwn. A ydyw eich polisiâu sefydliadol ar hyn o bryd yn ymroi i helpu busnesau lleol cynaliadwy? Sut fedr eich gweithdrefnau caffael facsimeiddio'r hyn y gallwch ei wneud i fod yn ddinas sy'n gyfrifol yn fyd-eang drwy gludo llai o nwyddau, drwy fuddsoddi mewn masnach leol a gosod gwerth ar ddefnyddioldeb hirdymor yn hytrach na ffocysu ar gost yn unig? Sut fedr wch chi integreiddio eich cymorth i'r busnesau hyn a chysylltu â chyfluoedd polisi a darpariaeth gwasanaeth ar lefel cenedlaethol a rhanbarthol. Yn gyfnewid, pa gyfrifoldebau sydd gan fusnesau yn eu cymunedau? Fedr wch chi integreiddio eich gwaith yn well fel bod hyn yn cyfrannu i Gymru fwy cyfartal ac i'ch amcan o gynorthwyo pobl allan o dlodi? Mae [Fforwm ar gyfer y Dyfodol](#) wedi cyhoeddi adroddiadau ar hyn ac mae fy swyddfa yn gweithio gyda [Gwerth Cymru](#) i dreialu ymagweddau newydd tuag at gaffael yng nghyd-destun y Ddeddf gydag Awdurdodau Lleol a chyrrff cyhoeddus eraill.

Yn ôl eich trafodaethau, nod eich cynllun drafft yw denu mwy o fusnesau o ansawdd da a gwerth uchel. Awgrymais bod angen creu cydbwysedd rhwng hyn a'ch dyletswydd i wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol y ddinas hefyd. Fel y dywedasoch, mae tagfeydd, materion llygredd aer ac allyriadau carbon y ddinas eisoes yn fater o bwys, a byddai hyn yn cael ei wneud yn waeth gan fathau arbennig o fusnes. Wrth gyfrannu at Gymru ffyniannus, rhaid i chi ddangos eich bod yn gweithio tuag at "gymdeithas arloesol, gynhyrchiol carbon isel sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang ac felly'n defnyddio adnoddau'n

effeithlon a chymesur...” Wrth ystyried twf, mae angen i chi wneud economi carbon isel yn ganolbwynt eich amcan. Mae hyn hefyd yn cysylltu â chamau eich ail amcan drafft ar gyfer gwella ansawdd aer; mae 40% o’r gweithlu ar hyn o bryd yn cymudo i Gaerdydd ac 80% yn dod i mewn i’r ddinas mewn car. Mae hyn yn creu problem i bobl a fydd yn cymudo i’r busnesau newydd posibl hyn o gofio bod eich asesiad yn nodi mai trafndiaeth ar y ffyrdd sy’n bennaf gyfrifol am lefelau nitrogen uchel yn y ddinas. Buaswn yn awgrymu bod angen modelu a meddwl yn ofalus am hyn dros yr hirdymor, a dylai fod yn ganolog ar gyfer darparu prifddinas gynaliadwy.

Fel y cydnabuwyd gennych, fodd bynnag, mae dyfodol patrymau gwaith yn newid, a chaiff hyn effaith anochel ar y modd yr ydym yn rhyngweithio â gwaith. Mae’r [adroddiad Dyfodol Gwaith](#) yn rhagweld y bydd 65 y cant o’r plant sydd yn awr yn cychwyn yr ysgol yn gweithio mewn swyddi fel oedolion nad ydynt hyd yn oed yn bodoli eto. [Ac yn ôl McKinsey](#), gallai technoleg awtomeiddio 45 y cant o’r tasgau y telir pobl ar hyn o bryd i’w cyflawni. Ydych wedi modelu sut y gallai hyn effeithio ar yr economi lleol? Sut fedrwch chi weithredu nawr ar gyfer yr hirdymor ac ymroi i roi i bobl ifanc y sgiliau a fydd yn addas ar gyfer y dyfodol? Pa gyfleoedd sydd yna i gymryd mantais o’r awtomeiddio sy’n debygol o ddigwydd? Sut fedrwch chi weithredu nawr, fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, i annog dysgu a swyddi yn yr economi sylfaenol, o amgylch gofal cymdeithasol, diwydiannau manwerthu a bwyd, sy’n llai tebygol o gael eu hawtomeiddio yn y dyfodol ac a fydd yn dda i’r economi lleol? [Mae adroddiad diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree](#)’n amlygu gwerth yr economi cymdeithasol wrth greu swyddi, gan gryfhau sgiliau a chyflogadwyedd. Sut allwch annog cydraddoldeb trwy fentrau? Mae Caerdydd yn ddinas sy’n amrywiol ei ddiwylliant, ac mae yna wahaniaeth cyflog cyson ar hyd y DU rhwng dynion gwyn a grwpiau eraill. Sut allwch annog pobl i ganfod mwy o ystyr i’w gwaith? Yn y dyfodol bydd y cytbwysedd rhwng gwaith/hamdden yn dod yn bwysicach ac ym [mlog diweddar Fforwm Economaidd y Byd](#) gofynnir “Beth yw ystyr gwaith?” a dyfynnir “Credaf mewn dyfodol lle mae addysg wedi ei bwriadu nid i baratoi ar gyfer swydd arall ddiwerth, ond ar gyfer bywyd sy’n cael ei fyw yn dda.” Rhain yw’r mathau o dueddiadau hirdymor yr wyf yn dymuno eu gweld yn cael eu harchwilio gan FGCau wrth iddynt benderfynu ar eu camau.

Dylai sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yng Nghaerdydd, ar draws Cymru ac yn Lloegr ymddiddori yn y sgwrs hon, o gofio bod Caerdydd yn denu cymaint o bobl ifanc sy’n chwilio am waith. Oes yna gyfleoedd cyfartal ar draws y ddinas? Mae plant a phobl ifanc wedi dweud bod gwaith tîm, cyfathrebu a hyder mor werthfawr â graddau da wrth fynd i mewn i’r gweithle (yn adroddiad [Results for Life Ymddiriedolaeth y Tywysog](#)), felly, mewn cysylltiad â chynorthwyo pobl i symud allan o dlodi, sut mae pobl ifanc ar draws y ddinas yn cael y cyfle i ennill y sgiliau hyn?

Dylech fod yn macsimeiddio eich cyfraniad i Gymru â ganddi ddiwylliant bywiog a lle mae’r iaith Gymraeg yn ffynnu. O gofio’r uchelgais i ddyblu’r nifer o siaradwyr Gymraeg yng Nghaerdydd a tharged Llywodraeth Cymru o gael un miliwn o bobl i siarad Gymraeg erbyn 2050, fel y nodwyd yn ‘[Cymraeg 2050](#)’, sut ydych chi’n mynd ati i gynyddu’r defnydd o’r iaith Gymraeg yn y ddinas. Sut fedrwch chi annog busnesau i roi gwerth ar recriwtio pobl sy’n siarad Gymraeg? Gwnaeth Alun Davies AC ddatganiad yn ddiweddar ar [ariannu ar gyfer tyfu busnesau bach dwyieithog](#) er mwyn cynyddu amlygrwydd Cymraeg yn ein cymunedau. Fedrwch chi fabwysiadu system gefnogi busnes sy’n seiliedig ar fusnesau’n macsimeiddio eu cyfraniad i’r saith nod llesiant? Mae tîm Comisiynydd yr Iaith

Gymraeg wedi bod yn gweithio gyda fy swyddfa, gan ystyried y ffordd orau o helpu BGCau i ystyried y rôl y gallant ei chwarae; os gwelwch yn dda gadewch i fy nhîm wybod os hoffech drafod hyn.

Mae nifer o FGCau eraill yn drafftio amcanion tebyg yn cynnwys Powys; Ceredigion; Casnewydd; Sir Benfro; a Chaerffili.

- ***Caiff twf ym mhoblogaeth Caerdydd ei reoli mewn dull cydnerth.***

Fel yr wyf eisoes wedi cynghori, mae gwireddu'r amcan hwn yn rhyng-gysylltu â phrifddinas sy'n gweithio i Gymru - sef yr egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith, lle bydd angen i chi ennill cydbwysedd rhwng twf economaidd, mewnfudo cynaliadwy cadarnhaol a llesiant amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol. Cefais fy nghalonogi i'ch gweld yn meddwl am effaith y twf ym mhoblogaeth Caerdydd dros y deng mlynedd nesaf, a buaswn yn eich annog i feddwl hyd yn oed ymhellach ymlaen na hyn i'r dyfodol yn eich cynllunio a'ch darpariaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r tai yr ydym yn byw ynddynt dros gant oed, seilwaith y strydoedd yno ers oddeutu dwy ganrif, ac mewn rhai ardaloedd mae ein system drafnidiaeth yn perthyn i'r ganrif ddiwethaf. Mae hwn yn gyfle i feddwl am seilwaith newydd a chyfredol sy'n addas ar gyfer y dyfodol, a fydd yn parhau drwy fywydau ein plant a'u plant, a hyd yn oed blant eu plant hwythau.

Mae Datblygiad Lleol Caerdydd wedi nodi bod cymunedau newydd i gael eu creu erbyn 2026. Wrth ystyried yn awr ddatblygiad yr ardaloedd hyn, a'r rhai tu hwnt i 2026, rwy'n cynghori bod y saith nod llesiant yn cael eu defnyddio fel fframwaith ar gyfer meddwl am gynllunio a datblygu. Tai yw conglaen llesiant; gall y ffordd y cânt eu hadeiladu, eu fforddiadwyedd, eu lleoliad a pha mor addas ydynt i gwrdd ag anghenion y rhai sy'n byw ynddynt yn awr ac yn y dyfodol gael effaith mawr iawn ar iechyd, cyfartaledd, cydlynid cymunedol, a'r amgylchedd. Mae'r rhan fwyaf o hen dai yng Nghymru heb fod yn ddigon effeithlon a ran ynni; mae tai yn cael eu hadeiladu ar gyfer teuluoedd heb hyblygrwydd yn eu defnydd, ac rydym yn gweld ystadau mawr yn cael eu hadeiladu'n barhaus gydag ychydig o werthfawrogiad o deithio llesol, tai sy'n rhy bell i gerdded ohonynt i'r siop, y dafarn, manau agored gwyrdd neu las, neu wasanaethau cyhoeddus.

Darganfu'r [Resolution Foundation](#) bod [cenedlaeth y mileniwm ar draws y wlad yn gwario tair gwaith gymaint â'u neiniau a'u teidiau ar dai](#), gyda phobl 30 oed ddwywaith yn llai tebygol na'u rhieni o fedru prynu eu cartref eu hunain - tueddiad hirdymor sy'n gwaethygu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yn ogystal â datblygu tai sy'n cwrdd â newid demograffig, mae gan Gymru hefyd gyfle i ddatblygu tai sy'n fwy addas ar gyfer cysyniadau modern o'r hyn a olygir gan fyw yn dda, mabwysiadu technoleg a chaniatáu i bobl fyw bywydau carbon-isel. Mae hyn wrth gwrs, yn cysylltu â nifer o'ch amcanion eraill parthed tyfu'n hŷn, tyfu i fyny yng Nghaerdydd, cynorthwyo pobl i symud allan o dlodi a moderneiddio gwasanaethau cyhoeddus. Heb amheuaeth, os yr ydym i newid arferion teithio pobl a lleihau ein hallryiadau carbon, mae arnom angen tai mewn cymunedau sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae [Llywodraeth Cymru wedi lansio cronfa dai arloesol £20 miliwn](#), a dros y ddwy flynedd nesaf bydd yn cynorthwyo cyflenwad o dai fforddiadwy ac yn gwella ansawdd y tai sy'n cael eu darparu. Dylai BGCau fod yn

ymroi i ddylanwadu ar y modd y caiff y gronfa hon ei defnyddio a dylai dealltwriaeth o'r effaith a gaiff ar Gymru drwytho eu camau hirdymor ar dai.

Mae seilwaith yn mynd tu hwnt i dai ac mae'r modd yr ydych yn cynllunio, dylunio a lleoli datblygiadau'r dyfodol, adeiladau, seilwaith a mannau agored cyhoeddus a chymunedol eraill fel rhan o'ch Cynllun Datblygu Lleol yn hollbwysig ar gyfer creu dinas ffyniannus amgylcheddol gydnherth. Mae'r adroddiad ['Closing the Circle'](#) ar yr economi cylchol ac 'Amgylchedd Cymru' a ysgrifennwyd gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, yn ddefnyddiol ac yn rhoi enghreifftiau ymarferol o ble fedr y sector cyhoeddus ymroi i leihau gwastraff ac adnoddau ym mhrosiectau'r dyfodol. Gallwch hefyd gael eich ysbrydoli gan rai o'r prosiectau a grybwyllwyd yng [Ngwobrau Adeiladu Arbenigrwydd](#), megis Ystafell Ddosbarth Weithgar. Mae ystyried pa mor 'wyrdd' yw'r adeiladau hyn, yn nhermau effeithlonrwydd ynni ac adeiladwaith cynaliadwy, yn fanteisiol i chi fel BGC. Mae [adroddiad Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Cymru ar seilwaith gwyrdd](#) yn amlinellu sut mae seilwaith gwyrdd yn darparu ystod o fanteision pendant, ymarferol, a manteision economaidd cost-effeithiol, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae gan [Gomisiwn Dylunio Cymru](#) hefyd astudiaethau achos ac adnoddau dylunio sy'n ffocysu ar ddefnyddwyr, ac sy'n maxsimeiddio effeithlonrwydd ynni ac sydd wedi dangos y gall brysuero iachâd cleifion mewn modd arwyddocaol.

Mae'n amlwg bod mewnlfriad pobl a'r logisteg o gael pobl o un man i'r llall yn ystyriaeth hollbwysig. Rwyf yn falch i weld eich targedau ar gyfer newid dulliau trafndiaeth dros y deng mlynedd nesaf. Mae'n amlwg y bydd y Metro a'r gwelliannau mewn cysylltiadau rheilffyrdd yn rhan o hyn, ond sut ydych chi'n edrych ar boblogrwydd cerbydau trydan yn yr hirdymor? Mae rhai BGCau eisoes yn darparu pwyntiau ar gyfer gwefru cerbydau trydan mewn gwahanol rannau o'u rhanbarthau ac yn annog staff i brynu cerbydau trydan drwy ddefnyddio ceir o gronfa ceir trydan. Ydych chi wedi modelu pa effaith a gaiff ceir heb yrwyrr ar y ddinas a datblygiadau tai yn y dyfodol? Mae rhai'n rhagweld y bydd llai a llai o bobl yn berchen car ac y bydd cynnydd yn [y nifer o bobl sy'n symud allan o ddinasoedd](#), gan y byddant yn medru gweithio a theithio. Mae yna gyfle i greu datrysiadau trafndiaeth mwy cynaliadwy ar gyfer twf y boblogaeth a'r economi yng Nghaerdydd ac rwy'n eich cynghori i gydweithio gyda rhai 'pobl anarferol' ar gyfer deall goblygiadau'r cynllunio hyn ar gyfer yr hirdymor.

Ochr yn ochr â thwf yn y boblogaeth daw bygythiad i'n hamgylchedd naturiol. Caiff Caerdydd ei dathlu fel dinas werdd gyda pharciau, mannau agored gwyrdd, afonydd ac arfordir. Er ei bod yn ddinesig, fel y nodir yn eich asesiad llesiant, mae'n gartref i lawer o gynefinoedd naturiol ac mae'r cysylltiadau a mannau agored gwyrdd o gwmpas y ddinas yn golygu bod rhywogaethau gwahanol yn ffynnu. Mae pobl Caerdydd yn profi gwell iechyd a llesiant oherwydd y mannau agored gwyrdd a glas sydd ar gael iddynt. Eich dyletswydd chi yw 'cynnal a gwella amgylchedd naturiol amrywiol ag ecosystemau iach ymarferol sy'n cynorthwyo cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid' o fewn y Ddeddf a buaswn yn eich cynghori i ystyried yr ymagweddau seiliedig ar le wrth wneud hynny. Rydych wedi datgan nad yw'r mynediad i fannau agored gwyrdd yr un fath ar draws y ddinas a bod gwahanol rannau o'r ddinas yn wynebu gwahanol beryglon i'r amgylchedd. Gallai deall hyn a'i integreiddio gyda'ch amcanion eraill ddarparu nifer o fanteision drwy ennyn ymgyfraniad cymunedau yng nghreadigaeth mannau agored gwyrdd, sydd ar yr un pryd, yn lleihau risgiau. Sut fedr wch chi

hefyd gyfrannu at Gymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu? Y diffiniad ar gyfer y nod hwn yw 'cymdeithas sy'n hybu ac sy'n amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden'. Dylid annog pobl i fynd allan i'r awyr agored, cymryd rhan mewn chwaraeon, dathlu eu diwylliant a'u treftadaeth drwy fannau agored gwyrdd Caerdydd. Gwnaeth prosiectau [Grangetown Wyrddach](#) a [GlawLif Dwr Cymru](#) argraff fawr arnaf yn hyn o beth, a buaswn yn annog rhagor o brosiectau tebyg. Sut fedr aelodau eraill o'r BGC gydweithio ar hyn? Wrth fabwysiadu ymagwedd seiliedig ar le ac ennyn ymgyfraniad y gymuned, pa fanteision eraill y gellir eu sylweddoli mewn perthynas â chydlyniad, addysg ac iechyd?

Mae newid hinsawdd yn her enfawr fyd-eang, ond mae gennym i gyd gyfrifoldeb. Mae adroddiad diweddar [Zero Carbon Britain, 'Making it Happen'](#) yn nodi'r hyn y medrwn ei wneud ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy weithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn awr. Hoffwn weld y BGC yn ystyried yr effeithiau penodol ar Gaerdydd i raddau helaethach yn ei gweithredu tymor byr, tymor canolig a'r hirdymor. Yn y dyfodol mae'n debygol y bydd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn achosi sychder yn yr haf, sy'n golygu prinder dŵr, bioamrywiaeth sy'n dirywio ac sy'n effeithio wedi hynny ar amaeth. Mae llawer o Gymru'n dibynnu ar amaeth ar gyfer yr economi ac rydym yn dibynnu ar yr amgylchedd am fwyd, dŵr a gweithgareddau hamdden. Rydych wedi cydnabod bod perygl i Gaerdydd gael llifogydd, felly buaswn yn eich cyngori bod angen i chi edrych ar y seilwaith hwn, sydd mewn perygl critigol. A ydyw ymagweddau presennol yn ddigonol i ymdopi? Sut fedr wch chi ddefnyddio senarios i ddychmygu pa gamau ataliol y gallech eu cymryd i amddiffyn cyflenwadau dŵr a chlodiant yn ystod digwyddiad tywydd eithafol?

Mae angen i'ch cyfrifoldebau chi fel sefydliadau fod yn glir ar y camau yr ydych yn eu cymryd i gwrdd â'r amcan. Sut fedr wch chi, fel uwch swyddogion, greu sefydliadau sy'n fwy cyfrifol yn fyd-eang a chyfrannu at Gaerdydd gydnerth? Er mai dim ond ychydig o allyriadau yng Nghymru sy'n deillio o'r sector cyhoeddus, rydych chi mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu'n fwy eang ar allyriadau mewn meysydd megis cludiant nwyddau, pobl, defnyddio a buddsoddi mewn ynni, defnyddio tir a chaffael. [Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru](#) lefelau allyriadau carbon wedi eu hisrannu i lefelau Awdurdod Lleol, a [Galwad am Dystiolaeth](#) i archwilio'r mecanweithiau mwyaf effeithiol ar gyfer gwireddu sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Byddaf yn cynnal digwyddiad ar yn 9fed Tachwedd, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru: i archwilio sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n medru ennyn ymgyfraniad pobl mewn cydweithio ac integreiddio eu gwaith, i dalu mwy o sylw i oblygiadau carbon hirdymor eu gweithrediadau, a helpu i atal effeithiau'r newid yn yr hinsawdd rhag gwaethgu.

[Mae cyfrifydd ôl troed amgylcheddol y WWF](#) yn dwyn ein sylw ni i gyd at ein potensial i effeithio newid, a'r effaith y gall cymunedau ei gael ar allyriadau carbon. Mae gan [NESTA ganllaw](#) ar gyfer gweithio gyda chymunedau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn cynnwys yr 'Her Fawr Werdd', lle mae cyfranogwyr wedi newid eu ffordd o fyw i leihau eu hól-troed carbon, ac mae enghraifft eithafol yn cynnwys [Ynys Eigg yn yr Alban](#), lle mae'r gymuned yn effeithio'n gadarnhaol ar eu hamgylchedd drwy gyflwyno cynlluniau ynni cymunedol adnewyddadwy, adeiladu busnesau cynaliadwy a gwella bioamrywiaeth. Mae gennym ymrwymadau clir yn nhermau lleihau carbon; mae'r

DU wedi addo y byddir yn gwaredu allyriadau carbon erbyn 2050 ac mae pob un o Lywodraethau Cymru wedi addo creu rhagor o swyddi gwyrdd. Ond er bod Cymru yn fan â photensial enfawr ar gyfer darparu ynni naturiol, dim ond 10% o drydan Cymru yn 2013 a ddarparwyd drwy ynni naturiol. Llynedd, cynhyrchodd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cymru'r adroddiad '[Dyfodol Ynni Clyfar i Gymru](#)' gyda 19 argymhelliad ar y modd y gallai Cymru drawsnewid ei hymagwedd tuag at ynni. Yn fwy diweddar, mae Ynni Clyfar y DU wedi cynhyrchu adroddiad ar '[A Smart Energy Future for Rural Areas](#)' sy'n rhoi enghreifftiau ac astudiaethau achos o ardaloedd gwledig ar draws y DU sydd wrthi'n cyflawni'r trawsnewid hwnnw.

BGCau eraill sy'n ymroi i amddiffyn eu hamgylchedd ac ymgymryd â gwaith pellach i ddeall y peryglon sy'n wynebu eu cymunedau yw Blaenau Gwent, Bro Morgannwg, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Chaerffili.

- ***Cymunedau diogel, hyderus a grymus.***

Mae amrywiaeth a chynwysoldeb Caerdydd i'w croesawu a'u dathlu. Fel yr ydych wedi cydnabod, mae'r amrywiaeth hwn yn cynyddu ac mae'n bwysig bod yna deimlad o groeso, teimlad o berthyn a pherchnogaeth mewn cymunedau newydd. Mae hyn yn berthnasol i'r nifer mawr o bobl sy'n cyrraedd Caerdydd a'r rhai sy'n byw yma'n barod. Mae cymunedau deniadol, diogel, hyfyw â chysylltiadau da yn gwella pob agwedd o lesiant. Gall prinder y pethau hyn greu tensiynau, llesiant gwael ac, mewn achosion eithafol, ymddygiad troseddol. Mae'n galonogol i weld eich bod yn ystyried y ffordd orau o atal hyn rhag digwydd gan annog ymgyfraniad pobl yn y datrysiadau.

Dim ond drwy ddeall y gwahaniaethau ar draws cymunedau yng Nghaerydd drwy wrando ar bobl a threulio amser yno y gallwch gychwyn gweld ble fedr y BGC ychwanegu gwerth. Mae ennyn ymgyfraniad pobl yn ganolog wrth gyflawni'r amcan hwn a buaswn yn cynghori pob un o'ch sefydliadau i ymrwymo i Safonau Cyfranogaeth Cenedlaethol. Efallai y byddwch yn dymuno cysylltu â [Participation Cymru](#), a fedr gynorthwyo eich swyddogion wrth iddynt ennill sgiliau hollbwysig ac ymgyfraniad ystyrlon. Gallai [Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru](#) eich helpu i ystyried cynlluniau bancio amser, rhoi enghreifftiau o gydgyhyrchu da a'ch helpu i adnabod ac ennyn ymgysylltiad arweinyddion cymunedau. Gwn bod gennych eisoes strwythurau lleoliad a chymdogaeth yn eu lle; mae hwn yn gychwyn da ond pa mor aml y maent mewn gwirionedd yn berchen y grym i wneud penderfyniad, i wyrdroi gwasanaeth neu ddatrys problem a fedrai wneud gwahaniaeth mawr i'r ardal honno? Dylai'r gwaith hwn hefyd fod yn mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar asedau, gan helpu pobl ar draws Caerdydd i adnabod eu cryfderau, gweld y pethau cadarnhaol yn eu cymunedau ac adeiladu arnynt. Er enghraifft, dywed eich asesiad bod anghydraddoldeb yn fater o bwys wrth ystyried teimladau o ddiogelwch yn y ddinas, yn arbennig ymhlith menywod a phob anabl, sy'n teimlo bod rhai ardaloedd yn anniogel. Sut fedr chwalu rhwystrau rhwng cymunedau daearyddol a demograffig help i newid rhagdybiaethau?

Y dull gorau o ddyfnhau eich dealltwriaeth o gymunedau yw drwy ddeall profiadau go iawn y bobl sy'n byw ynddynt. Mae ennyn ymgyfraniad eich staff, mynd allan i siarad â phobl a chydweithio gyda hwynt i gyflawni prosiectau yn ffordd o ennill ymddiriedaeth cymunedau a gweld canlyniadau cadarnhaol.

Mae gwaith o'r fath eisoes yn cael ei wneud yn [Trowbridge a Llanelwng](#) drwy Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr. Efallai nad ydych yn gwybod pwy yw arweinyddion cymunedol posibl a chysylltwyr mewn rhai ardaloedd, felly os yr ydych wedi ymrwymo i wneud hyn, newidiwch bwrpas eich adnoddau i gynyddu eich gwaith mewn cymunedau, gan ddod i adnabod lle yn yr un modd ag y mae'r bobl sy'n byw yno yn ei adnabod. Heb amheuaeth bydd gwneud hyn yn eich helpu i ddeall sut i fynd i'r afael â'r newid mewn poblogaeth drwy ymagwedd seiliedig ar le a rhoi dealltwriaeth i chi o'r amgylchedd yn y lleoliad hwnnw hefyd. Eto, mae ennyn ymgyfraniad 'pobl anarferol' yng ngwaith y BGC, ysgolion, colegau a Chynghorau Cymuned a'r trydydd sector yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gysylltu pobl â'i gilydd.

Mae dwyn at ei gilydd bobl o wahanol ddiwylliannau, coginio, celf a pherfformio, yn creu cydlyniant a theimlad o berthyn. Bydd llawer o bobl yn ymgyfrannu'n unig mewn rhywbeth sy'n hwyl ac o les iddynt hwy. Sut fedrwch chi ddefnyddio chwaraeon, treftadaeth, iaith, traddodiadau a'r amgylchedd naturiol i alluogi pobl i gymryd rhan? Mae yna gyfle gwirioneddol yn y fan hon i chi feddwl sut yr ydych yn maxsimeiddio eich cyfraniad i'r nodau cenedlaethol. Fel y gwyddom, nid yw iaith yn cyfyngu ar chwaraeon a gall fod yn bwerus iawn fel modd o ddwyn pobl o bob cefndir at ei gilydd. Mae Chwaraeon Cymru'n awyddus i weithio gyda'r BGCau ar sut y gallant facsimeiddio eu cyfraniad i'r saith nod llesiant. Gallai strategaeth [Cyngor Celfyddydau Cymru](#) sy'n amlinellu rhai o'r manteision a fedr ddeillio o ymgyfrannu mewn gweithgareddau creadigol i iechyd, cydlyniant a sgiliau'r boblogaeth eich helpu i adnabod sut y gall prosiectau fod yn fuddiol iawn i'ch sefydliadau. Sut fedr yr Amgueddfa Genedlaethol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru helpu i greu stori newydd ar gyfer cymunedau Caerdydd? Mae'r [Rhaglen Comisiynu Diwylliannol, a ariennir gan Cyngor Celfyddydau Lloegr](#) yn ymroi i helpu comisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddeall sut y gallant wella canlyniadau drwy integreiddio celfyddyd a gweithgareddau diwylliannol gydag ystod o wasanaethau, yn cynnwys iechyd meddwl a llesiant, pobl hŷn a chomisiynu seiliedig ar le. Mae rhoi'r pŵer yn nwylo pobl sy'n gwybod mwy na neb arall am yr ardal yn aml yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol annisgwyl, fel y dengys y gwaith a wnaed gan ['Nurture Development' o amgylch Datblygu Cymunedau Seiliedig ar Asedau](#), a'r [astudiaeth 'Lle Dwfn' yng Nghanolfan Adfywio Rhagoriaeth Cymru yn Nhredegar](#) sy'n rhoi tystiolaeth o'r modd y mae dealltwriaeth o le yn medru bod yn fanteisiol iawn i lesiant.

Mae digideiddio'n golygu bod y byd yn awr yn lle gwahanol a bydd hyn yn cynyddu dros yr hirdymor. Dengys [adroddiad diweddar o Barnados](#) pa mor gyflym mae technoleg yn symud a'r modd y mae plant yn awr yn defnyddio gwybodaeth. Sut mae eich sefydliadau chi'n harneisio pŵer technoleg i helpu i gwrdd â'r amcan hwn? Mae'n amlwg bod yna oblygiadau am ddiogelwch y we yn achosi pryder i bobl Caerdydd. Sut fedrir ei defnyddio mewn dull cadarnhaol? Pa newidiadau y gall y bydd yn angenrheidiol i chi eu gwneud i'ch systemau sefydliadol a'ch polisiâu i alluogi pobl i ymgyfrannu mwy mewn cymunedau a llunio gwasanaethau lleol? Sut fedrwch chi ddefnyddio technoleg i gasglu gwybodaeth am y gymuned ac ennyn ymgyfraniad pobl? Rwy'n gweld gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fel rhai sydd heb symud ymlaen ers cychwyn y 2000au yn y ffordd y maent yn galw ar drigolion i ddod i neuadd y pentref i 'ymgysylltu'. Ar hyn o bryd dengys ymchwil bod plant rhwng 5 ac 16 mlwydd oed yn treulio chwe awr a hanner bob dydd o flaen sgrin; [28% o bobl ifanc yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol](#) fel eu prif ffynhonnell newyddion; [43% o bobl a anwyd rhwng 1980 a dechrau'r 2000au yn cael eu gyrru i wneud cyfraniadau ariannol drwy sianelau cymdeithasol](#). Mae yna gyfle gwirioneddol i

ymgysylltu â phobl yn y dull sydd fwyaf cyfleus iddynt hwy ac sy'n rhan o'u bywyd bob dydd, yn hytrach nag ychwanegu at eu tasgau presennol. Mae "[Sir Fynwy Agored](#)" yn enghraifft o lwyfan ar-lein sydd wedi rhagweld sut y gallai pobl gyfrannu tuag at wella'u hardal yn y dyfodol, gyda chyfleoedd i rannu syniadau, i ofyn am farn y gymuned, cychwyn prosiect a chwilio am wirfoddolwyr neu adnoddau. Byddai Matthew Gatehouse, sy'n gweithio gyda BGC Sir Fynwy, yn medru eich helpu i rannu eu gwybodaeth gyda chi ar sefydlu'r wefan hon.

Fel arweinyddion asiantaethau lleol, mae gennych rôl allweddol i'w chwarae yn y gwaith o hybu a chynorthwyo cydlynrwydd cymunedau, o gofio eich rôl mewn arweinyddiaeth a chefnogaeth gymunedol, a'ch rôl mewn meithrin gallu cymunedol drwy, er enghraifft, hwyluso rhwydweithio a chydweithio, a darparu hyfforddiant i grwpiau cymunedol a chyflogwyr. Mae'r ymchwil yn y ddogfen '[What Works in Community Cohesion](#)' yn darparu cyfeiriadau defnyddiol i FGCau ar wahanol ddimensiynau cydlynriad cymunedol. Gofynnwch i chi eich hunain a ydyw'r ddarpariaeth gyfredol yn addas ar gyfer rheoli'r materion hyn? A ydyw'r materion hyn ar hyn o bryd yn cael eu rheoli'n ddigonol ac ym mha ardaloedd y gellid bod angen mwy o weithredu ar y cyd neu weithredu ataliol? Beth yw effaith anhygyrchedd? Pa effaith a gaiff tybiaethau o ddiogelwch ar allu pobl i gyrchu gwasanaethau neu chwarae rôl weithgar yn eu cymunedau? Sut mae lefelau gwirfoddoli'n gwahaniaethu ar draws y sir? I ba raddau y mae gwirfoddolwyr niferus yn ymgyfrannu yng ngwaith y BGC?

Fel gwasanaethau cyhoeddus, rydym yn aml yn delio â *symptomau* trallod; trosedd, camddefnyddio sylweddau, materion tai, trais yn y cartref ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol, yn hytrach na'r hyn sy'n eu hachosi. Mae mynd i'r afael â throeddu'n dasg gymhleth, ond mae'r pum dull o weithio yn y Ddeddf yn dangos sut i edrych ar broblemau a sut y gallech ffocysu arnynt, fel BGC. Mae gwella dulliau o atal drwy integreiddio gwasanaethau teuluol, drwy wrando er mwyn deall ble mae teulu angen cymorth, neu ddeall eu pryderon, ac atal materion rhag gwaethygu, yn hollbwysig, ac wedi eu cysylltu â'ch amcan i greu Caerdydd sy'n lle da i dyfu i fyny ynddo. Rydych eisoes wedi bod yn arloesol yn y maes hwn gyda gwaith yr [athro John Shepherd ar economi'r nos](#). Roedd hyn yn golygu edrych ar y broblem o nifer o wahanol bersbectifau, cydweithio gyda phartneriaid a dod o hyd i ddatrysiadau cymharol syml drwy ailddylunio gwasanaethau. Rydym yn aml mor brysur yn delio â mater argyfyngus sy'n effeithio ar ein gwasanaeth fel ein bod yn anghofio edrych o'n cwmpas a gweld y dylai fod yna ddull ataliol arall o ddatrys y broblem. Mae rhannu gwybodaeth a gwaith seiliedig ar dystiolaeth yn hynod bwysig wrth atal ymddygiad troseddol ac eithafol, sydd, wrth gwrs, yn dibynnu ar wybodaeth gymunedol, ymddiriedaeth a hyder. [Mae Nesta a'r Gynghrair ar Gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol wedi cyhoeddi 'Using Research Evidence'](#) fel canllaw i gyrff cyhoeddus i annog hyder wrth fabwysiadu ymagweddau newydd, ymyriadau byr, llym, gan unigolion a rymuswyd.

Ni fyddwch yn synnu i wybod bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill hefyd yn ystyried gosod amcanion sy'n ymwneud ag ymgysylltiad, datblygu/cynnal rhwydweithiau cymdeithasol cryf, meithrin teimlad o berthyn a llunio gwasanaethau. Yn arbennig efallai y byddwch yn dymuno rhannu syniadau gyda BGCau Bro Morgannwg, Ceredigion, Casnewydd, a Phowys, sydd wedi rhoi amcanion drafft tebyg i mi.

- [Mae Caerdydd yn brifddinas wych i dyfu i fyny ynddi](#)

Rwyf wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Comisiynydd Plant, i gynhyrchu pecyn cymorth ar fabwysiadu ymagwedd hawliau'r plentyn tuag at facsimeiddio cyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae'n galonogol i weld eich bod wedi nodi bod ennyn ymgyfraniad plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd yfory yn dda iddynt hwy ac yn dda i chi fel gwasanaethau cyhoeddus. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnal ysbryd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac mae'n bwysig i gydnabod hawliau plant ar draws pob un o'r nodau llesiant a'r modd y dylent drwytho ymagwedd Cymru tuag at weithredu'r pum dull o weithio.

Fel y nodwyd gennych, mae tlodi, camdriniaeth, gwahaniaethu a ffurfiau eraill o anfanteision yn medru cael effeithiau parhaus ar lesiant plant a phobl ifanc gan effeithio'n ddifrifol ar eu tebygrwydd o sicrhau dyfodol ffyniannus, iach, diogel a chymdeithasol weithgar. Mae cyfleoedd yn ystod plentynod yn allweddol a'r ymyriadau cadarnhaol a roddir yn eu lle yn awr gan Gymru i amddiffyn a darparu ar gyfer plant yn helpu i sicrhau dyfodol mwy ffyniannus, iach a chydlynol i Gymru. Dylid rhoi ystyriaeth i ba mor dda mae cyrff cyhoeddus a BGCau yn cynnwys hawliau plant fel rhan o'u prosesau ymgynghori, gwneud penderfyniadau a chynllunio rhaglenni. Bydd hyn yn cynnwys datblygu polisiâu sy'n ffocysu ar hawliau plant, gan alluogi plant i ddysgu am eu hawliau a'u grymuso i chwarae rôl weithgar yn eu cymunedau. I gynorthwyo'r gwaith hwn, mae pecyn cymorth yn cael ei dreialu a bydd ar gael cyn diwedd y flwyddyn. Byddai'r swyddfa Comisiynydd Plant yn hapus i roi cyngor i chi ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a mabwysiadu ymagwedd tuag at sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol sy'n talu sylw i hawliau plant.

Buaswn yn eich cyngori i fod yn glir am beth a olyga hyn i Gaerdydd yn eich cynllunio llesiant. Pa dystiolaeth leol ydych chi wedi ei defnyddio (neu'n mynd i'w defnyddio) i ddeall meysydd penodol ymyriadau ataliol llwyddiannus? Pa wasanaethau lleol fydd yn cael eu heffeithio os byddwch yn ailgyfeirio buddsoddiad i'r 1000 diwrnod cyntaf o fywyd plentyn? Sut fyddai sefydlu ymateb aml-asiantaeth i brofiadau niweidiol yn ystod plentynod yn gweithio mewn gwirionedd yn eich sefydliadau? Fel y dywedais uchod, rydym yn aml yn trin *symptomau*'r pethau sydd wedi digwydd i bobl yn ystod eu plentynod, yn hytrach na mabwysiadu ymagwedd ataliol. Ydych chi wedi ystyried tueddiadau hirdymor yr amcan hwn? Byddai sefyllfaoedd economaidd-gymdeithasol mewn llawer o gymunedau yng Nghymru'n awgrymu nad yw teuluoedd yn derbyn y math iawn o gymorth ar yr adeg gywir, ac mae'r cylchoedd hyn yn parhau i mewn i'r genhedlaeth nesaf. Mae hyn yn costio llawer i wasanaethau cyhoeddus ac unigolion - [amcangyfrifir bod gwasanaethau ymyrraeth hwyr ar gyfer pobl ifanc yn costio £17 biliwn y flwyddyn i Gymru a Lloegr](#): (£6 biliwn ar amddiffyn a diogelu plant, £5.2 biliwn ar droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, £3.7biliwn ar anweithgarwch economaidd pobl ifanc, £680 miliwn ar absenoldebau a gwaharddiadau o'r ysgol, £610 miliwn ar anafiadau i blant a phroblemau iechyd meddwl, a £450 miliwn ar gamddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc). Atal sydd wrth wraidd yr amcan hwn a buaswn yn cyngori eich sefydliadau i gydnabod bod atal canlyniadau gwael yn rhan o'u holl gyfrifoldebau.

Mae delio â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod yn ymwneud llawn cymaint â chael gwasanaeth cyhoeddus sy'n ymwybodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod ac adnabod ble mae wedi digwydd ag y mae i sicrhau bod y gwasanaethau mae teuluoedd yn eu cyrchu yn integredig. Yn y camau yr ydych yn eu cymryd, mae'n bwysig i adolygu mentrau sy'n ffocysu ar iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, cyfiawnder troseddol, tai,

gwasanaethau ac eraill i sicrhau eu bod yn ataliol, yn gydgysylltiedig ac yn ymroi i wella sefyllfaoedd ar gyfer teuluoedd a rhieni'r dyfodol er mwyn atal y cylch rhag parhau i'r genhedlaeth nesaf. Heb amheuaeth mae hyn yn golygu herio'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau ar hyn o bryd, y trothwyon yr ydym yn eu defnyddio i helpu pobl a'r berthynas rhyngom â dinasyddion. Yn ddiweddar bu Alyson Francis, Cyfarwyddwr Canolfan Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, yn gweithio gyda fy swyddfa i ysgrifennu atoch i amlinellu nad un peth arall i dalu sylw iddo yw Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, ond cyfle i ailystyried sut yr ydym yn darparu gwasanaethau gyda'n gilydd sy'n gwneud synnwyr i'r teuluoedd sy'n eu derbyn. Gallai'r Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod hefyd weithredu fel man canolog lle gallai BGCau rannu arfer, gan fod bron bob un o'r BGCau yng Nghymru wedi trafod blynyddoedd cynnar, a phlant a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn eu hamcanion drafft a'u camau.

Rwy'n cynghori bod deall profiadau bywyd pobl sydd wedi dioddef trawma yn eu bywydau hefyd yn rhoi persbectif ffres ar lunio gwasanaethau ataliol. Ar hyn o bryd, mae ein gwasanaethau'n aml heb gael eu gosod mewn ffordd a fyddai'n cyflawni'r amcan hwn. Rydym yn delio â phobl mewn categorïau twt 'defnyddwyr-gwasanaethau', megis 'dioddefwr camdriniaeth ddomestig', 'troseddwr ymddygiad gwrthgymdeithasol', 'un sy'n camdefnyddio sylweddau', 'tenant trafferthus', ac mae hyn yn aml yn creu rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael yr hyn sydd fwyaf ei angen arnynt. Mae'r ffordd hon o weithio'n golygu ein bod yn methu cysylltu materion, yn methu integreiddio a gweld arwyddion sefyllfa sy'n gwaethygu. Mae ennyn ymgyfraniad pobl i herio'r system yn ganolog oherwydd dim ond drwy ddeall profiadau bywyd pobl y medrwn ddylunio gwasanaethau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r enghraifft hon '[Pam nad yw pobl yn cynllunio ar gyfer yr hirdymor](#)' yn rhoi mewnwelediad i'r rhwystrau a wynebwr gan bobl wrth iddynt geisio goresgyn anghydraddoldeb ac mae'r astudiaethau achos a [gynhwysir yn yr adroddiad hwn gan Locality](#) yn dangos y costau ariannol a chymdeithasol o fethu mabwysiadu'r ymagwedd holistig ac ataliol hon tuag at fywydau pobl.

Mae llawer o bethau'n effeithio ar gyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc ac mae'r amcan hwn yn cysylltu â rhai o'ch amcanion eraill wrth ennyn ymgyfraniad cymunedau yn y dasg o ddeall y rhwystrau i uchelgeisiau plant a phobl ifanc. Dywedais yn fy adborth i'ch asesiad ei bod yn bwysig i ddeall yn achosion sydd wrth wraidd materion cyn i ni ddatgan beth, yn ein barn ni, sy'n iawn i bobl eraill. Er enghraifft comisiynwyd Social Finance gan Gyngor Dinas Newcastle i dwrio'n ddyfnach i'w data i'w helpu i fynd i'r afael â phroblem NEET (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant). Tra bo ffocws traddodiadol yn edrych ar gyraeddiadau TGAU, yr hyn a ddengys y dadansoddiad hwn yw nad cyflawniadau academaidd mewn gwirionedd yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol o bell ffordd, gan ddangos yn hytrach bod 67% o rai rhwng 17-19 mlwydd nad oeddent mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant wedi dod o blith y 25% o rai 17 - 19 mlwydd oed, a oedd, yn ystod eu plentyndod, wedi cael cysylltiad nifer o weithiau â'r gwasanaethau cyhoeddus. Dangosodd yr ymchwil bod y rhai oedd wedi cael cyn lleied â chwe rhyng-gysylltiad â'r gwasanaethau cyhoeddus wedi treulio tair gwaith gymaint o amser allan o addysg neu hyfforddiant. Mae'r astudiaeth hon yn dangos bod edrych ar y mater mewn dull mwy holistig yn egluro'r camau y gallwch eu cymryd fel BGC i wireddu eich amcanion.

Darganfu'r [London School of Economics mewn adolygiad a wnaethpwyd ganddynt i Sefydliad Joseph Rowntree yn 2013](#) bod plant mewn teuluoedd incwm-is yn profi canlyniadau gwaeth yn wybyddol, yn gymdeithasol-ymddygiadol ac yn eu hiechyd. Yn hollbwysig, dangosodd yr astudiaeth hon, bod hyn, yn rhannol, oherwydd eu bod yn dlotach, nid yn unig oherwydd bod incwm isel yn cydberthyn i nodweddion eraill yn y cartref neu nodweddion rhieni. Ceir adlais o hyn o fewn eich cynllun drafft sy'n cyfeirio at y bwlch mewn cyraeddiadau rhwng disgyblion o gartrefi incwm isel ac incwm uchel. Sut fedr y BGC gydweithio gydag eraill i wella llesiant economaidd teuluoedd ar draws y rhanbarth? Mae hyn yn cysylltu â'ch dyheadau parthed y Ddinas-Ranbarth a'ch awydd i gynorthwyo pobl i symud allan o dlodi. Sut y gellir ffocysu, yn arbennig, ar y cymunedau hyn? Os gwyddom fod amgylchiadau'r man lle maent yn byw eisoes yn effeithio ar lesiant plant mewn rhai ardaloedd erbyn yr adeg y maent yn cyrraedd y dosbarth derbyn yn yr ysgol, mae angen i ni ymyrryd yn llawer cynt wrth ymateb i'r tueddiadau hyn. Gallai gwaith y [Sefydliad Economaidd Newydd](#) ar fuddsoddi mewn plant fod yn ddefnyddiol, gan ei fod yn amlygu'r angen i fynd i'r afael â llesiant materol a hefyd amgylchiadau allanol - megis tai, tlodi ac addysg - yn ogystal â llesiant seicolegol ac adnoddau mewnol.

Yn ogystal ag incwm, gwyddom bod iechyd mam a iechyd teulu'n cael effaith mawr a fywyd plentyn. Mae rhwng 10% ac 20% o fenywod yn datblygu problemau iechyd meddwl yn ystod beichiogrwydd o fewn blwyddyn i'r enedigaeth. Mae'r anhwylderau hyn yn un o brif achosion marwolaeth mamau yn ystod beichiogrwydd ac yn y flwyddyn yn dilyn genedigaeth. Er gwaethaf hyn, mae menywod mewn oddeutu hanner y DU heb fynediad i wasanaethau iechyd meddwl amenedigol arbenigol ac mewn manau daearyddol eraill mae gwasanaethau'n annigonol. Mae ystyried effaith gwasanaethau fel y rhain ar deuluoedd ifanc yn bwysig os yr ydych i fabwysiadu ymagwedd traws-sector. Mae'r prosiect '[Mums and Babies in Mind](#)' yn Lloegr wedi rhoi ffocws i arweinwyr lleol i greu llwybr ar draws sectorau sy'n darparu'r cymorth iawn ar yr adeg iawn i fenywod beichiog a mamau newydd. Buaswn yn eich cynghori i ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y [1000 diwrnod cyntaf o fywyd plentyn](#) a'r manteision y gellid eu sylweddoli drwy fuddsoddi yn y blynyddoedd cynnar i benderfynu pa gamau y gallwch eu cymryd yn awr i wella llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu 'Canolfan Iechyd a Chynaliadwyedd' i gyd-drefnu eu gwaith hwy eu hunain o amgylch y Ddeddf a, thrwy eich cynrychiolydd BGC, gallai cysylltu â'r tîm cenedlaethol am fwy o dystiolaeth a gwybodaeth fod yn fanteisiol i chi.

Mae'r mwyafrif o FGCau wedi nodi amcanion drafft sy'n gysylltiedig â blynyddoedd cynnar, gan roi cychwyn da mewn bywyd i blant ac atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod yn cynnwys Cwm Taf, Wrecsam, Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Casnewydd a Chonwy/Sir Ddinbych. Mae Alyson Francis a minnau hefyd ar [banel gwefinar Cyfnewidfa Arfer Da Cymru ar ddeall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod](#) ar y 7fed Tachwedd, a allai fod yn ddefnyddiol i chi wrth i chi ystyried eich camau ar gyfer yr amcan hwn.

- [Cynorthwyo pobl i symud allan o dlodi.](#)

Mae eich asesiad yn cydnabod bod y bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn cynyddu, fel mewn llawer o ddinasoedd yn y DU, gyda thraean o bobl yng Nghaerdydd ar hyn o bryd yn byw mewn tlodi. Mae tlodi'n effeithio ar bob rhan o lesiant ac mae'n amlwg iawn yng Nghaerdydd gyda bwlch mewn disgwyliad oes rhwng yr ardaloedd

lleiaf amddifad a'r ardaloedd mwyaf amddifad o 22 o flynyddoedd i fenywod a 24 o flynyddoedd i ddynion. Er y bydd yna lawer o resymau dros yr amddifadedd a ddiodefir mewn rhai rhannau o'r ddinas a dim atebion hawdd, mae yna gamau y gallech eu cymryd fel BGC i gryfhau cydnerthedd yr ardaloedd hyn ac atal effeithiau niweidiol tlodi. Fel gyda'ch cynllun drafft, mae hwn yn cydgysylltu â'ch amcanion drafft eraill, gan fod cynorthwyo pobl i symud allan o dlodi nid yn unig yn ymwneud â llesiant economaidd, ond â gweld gwerth pobl mewn ffordd wahanol. Cefais fy nghalonogi i weld eich bod wedi cychwyn ystyried pa rôl y gallwch ei chwarae fel arweinyddion y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol yng Nghaerdydd a dylech werthfawrogi'r dylanwad y gallwch ei gael ar drefniadau partneriaeth a sefydliadau yng Nghymru.

Mae'r amcan hwn yn gofyn am arweinyddiaeth gref, fel y cynghorais uchod, sy'n treiddio drwy bob un o'ch sefydliadau. I gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn, bydd angen i chi fod yn ddewr wrth grynhoi eich adnoddau a newid polisiau o fewn pob un o'ch sefydliadau. Y saith maes sy'n gofyn am newid yn y Ddeddf: cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio gweithlu, caffael, asedau a rheoli perfformiad a risg yw'r gweithgareddau cyfundrefnol creiddiol lle byddai cymhwyso'r pum dull o weithio'n sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n fframio sut yr ydych yn gweithio.

Fel y nodwyd gennych, mae'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn cyflogi 46,000 o bobl ac yn cyfrannu dros £1bn i'r economi. Buaswn yn eich cynghori i edrych ar yr effaith economaidd y gallwch ei gael fel darparwyr y sector cyhoeddus yn y meysydd hyn ar draws y saith nod llesiant cenedlaethol. Er enghraifft, sut fedr ymrwymiad ar y cyd i gaffael cynaliadwy lleol fod o fudd i'ch economi lleol? Pa gyfleoedd cyflogaeth fedrwrch chi eu cynnig megis cynlluniau prentisiaeth cydweithredol i bobl leol sy'n byw ymhell o'r farchnad swyddi? Sut fedrwrch chi annog swyddi yn yr economi sylfaenol, mewn perthynas â gofal lleol, manwerthu a'r diwydiant bwyd? Mae'r BGCau o'ch cwmpas yn gyfoethog mewn tir ffermio, a gan mai ffermio yw conglaen cadwyn gyflenwi'r diwydiant bwyd a diod, sut fedrwrch chi greu cysylltiadau a helpu busnesau i ffynnu yn y ddinas?

Mae eich asesiad yn nodi mai Caerdydd yw'r un o'r dinasoedd mwyaf medrus, gydag ychydig iawn o bobl heb unrhyw gymwysterau o gwbl. Yn wahanol i rannau o Gymru, mae'n debygol nad yw'r tlodi a brofir gan rai yng Nghaerdydd yn ymwneud â diffyg dyhead. Mae deall y mater hwn cyn gweithredu o'r pwys pennaf i chi fel BGC. Beth yw'r rhwystrau i waith dibynadwy sy'n talu'n dda? Pa effaith a gaiff ffactorau cymunedol fel tai, dioglewch a chyfleusterau ar ganlyniadau pobl? Beth sy'n cael effaith ar fywydau pobl y gallwch chi, fel gwasanaethau cyhoeddus, ymroi i'w hatal? Mae ailgyfeirio eich adnoddau i wrando'n astud ar, ac ennyn ymgyfraniad y bobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy amddifad yng Nghaerdydd yn bwysig ar gyfer deall sut y maent yn canfod asedau a diffygion eu cymuned. Mewn llawer o'r asesiadau llesiant, darlennais mai anaml y mae cymunedau sy'n cael eu brandio fel rhai 'amddifad' neu 'mewn tlodi' gan ystadegau, yn diffinio eu hunain yn y dull hwnnw, ac roedd llawer o bobl yn ymfalchïo yn eu hamgylchedd naturiol, eu hadeiladau cymunedol a'r modd y mae pobl yn dod ymlaen gyda'i gilydd. Felly mae adnabod asedau'r ardaloedd hyn ac ennyn ymgyfraniad pobl yn y modd yr ydych yn adeiladu arnynt yn helpu i ddod o hyd i atebion gyda'ch gilydd i leihau anghydraddoldeb.

Ar gyfer y fath fater cymhleth, mae integreiddio ar draws y saith nod llesiant yn arbennig o bwysig wrth i chi gymryd camau tuag at gwrdd â'r amcan drafft hwn. Efallai mai mabwysiadu ymagwedd wahanol ac adeiladu ar beth o'r cyngor a ddarparwyd gennyf uchod i ddwyn pobl at ei gilydd o amgylch diwylliant, iaith, treftadaeth yw'r



ymgysylltiad sydd ei angen ar gyfer gwneud gwahaniaeth. Pa gyfleoedd sydd ar gael mewn perthynas â thyfu bwyd cymunedol yn y ddinas, er enghraifft? Rwy'n falch i weld eich bod wedi edrych tu hwnt i agwedd economaidd tuag at leihau anghydraddoldeb ac amddifadedd, wrth ystyried mai'r rhai hynny sy'n byw mewn tlodi yw'r rhai sydd hefyd yn y perygl mwyaf o gael eu heffeithio gan faterion amgylcheddol, yn cynnwys bod ymhell i ffwrdd oddi wrth fannau agored gwyrdd. Rydych wedi nodi bod allyriadau aer yn sgorio'n uwch mewn ardaloedd difreintiedig ac, er bod llawer o resymau am hyn, bod anhwylderau resbriadol yn llawer mwy cyffredin mewn ardaloedd difreintiedig. Pa gamau fedrwrch chi eu cymryd i wyrddroi rhai o'r effeithiau hyn neu atal cenedlaethau'r dyfodol rhag gorfod delio â sefyllfa sy'n gwaethygu?

Mae ansawdd tai yn fater sy'n codi'n gyson mewn ardaloedd difreintiedig, a hynny'n cael effaith ar iechyd, cydlynid cymdeithasol a chyllid personol. Mae digartrefedd yn fater arbennig yng Nghaerdydd ar hyn o bryd; rwyf eisoes wedi dweud bod integrediddio gwasanaethau a deall y mater yn iawn yn hollbwysig wrth fynd ati i'w ddatrys. Fel y darganfu eich asesiad hefyd, mae pobl hŷn yn fwy agored i gael eu niweidio gan dlodi tanwydd a'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig ag oerni a lleithder; ac mae eich asesiad yn amlygu'r nifer uchel o bobl hŷn sy'n byw ar eu pennau eu hunain.

Mae ystadegau diweddar o Gynghrair Tlodi Tanwydd Cymru'n dangos bod 1 o bob 3 chartref yng Nghymru'n byw mewn tlodi tanwydd, gyda chost amcangyfrifedig o dderbyniadau i ysbytai sy'n gysylltiedig ag oerfel yn cyrraedd dros £100 miliwn ac yn achosi 475 o farwolaethau bob blwyddyn. Mae tlodi tanwydd ar hyn o bryd yn achosi mwy o farwolaethau na rhai'n gysylltiedig ag alcoholiaeth yng Nghymru. Bydd cymryd camau i leddfu tlodi tanwydd a gwella ansawdd tai yn gyffredinol yn fanteisiol i'r sector cyhoeddus mewn mannau eraill. Felly, gallai cydweithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a landlordiaid preifat i weithredu ar y modd y gellid gwneud tai presennol yn fwy effeithlon mewn ynni fod yn gam y gallai'r BGC fod yn awyddus i'w archwilio. Mae'r Safon Passivhaus yn un ffordd o adeiladu ac adfer cartrefi ar gyfer y dyfodol (www.passivhaus.org.uk).

Eto, mae amcanion drafft yn ymwneud â lleihau anghydraddoldeb yn gyffredin ar draws Cymru, yn cynnwys Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Powys a'ch cymydog, Bro Morgannwg.

- ***Mae Caerdydd yn brifddinas wych i dyfu'n hŷn ynddi.***

Mae eich asesiad llesiant yn nodi ei bod yn debygol y bydd cynnydd o dros 44% yn nifer pobl hŷn yng Nghaerdydd yn ystod yr ugain mlynedd nesaf, wrth i'r boblogaeth gynyddu. Cydnabu eich asesiad y gall hyn roi pwysau ar wasanaethau iechyd a chymdeithasol, ond wrth i iechyd a disgwyliad oes wella, rwy'n eich cynghori i gydnabod i ba raddau y mae pobl hŷn yn ased yn nhermau gofalu, gwirfoddoli a chyfrannu i'r economi. Mae gwaith [Comisiynydd Pobl Hŷn](#) yn hynod o ddefnyddiol wrth archwilio'r camau y gallech eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn ac mae'n cynnwys ei chyfarwyddiadau diweddar i FGCa.

Yn awr, gan fod gennych amcanion drafft, ac am eich bod yn ystyried eich ymateb, buaswn yn eich cynghori i dwrio'n ddyfnach i mewn i'r data. Mae eich drafft cyntaf yn seiliedig ar seilwaith cymunedol, rhwydweithiau a gwasanaethau. Gofynnwch i chi eich hunain a ydyw'r ddarpariaeth bresennol yn briodol ar gyfer rheoli'r mater

hwn sy'n ehangu? A ydyw'r materion hyn ar hyn o bryd yn cael eu rheoli'n ddigonol ac y mha ardaloedd y gall fod angen mwy o weithredu ar y cyd? Pa mor addas ar gyfer y dyfodol ydyw darpariaeth TG? Beth yw'r cyfyngiadau ar ddarpariaeth trafniadaeth gyhoeddus? Ym mha fodd y mae gwirfoddoli'n wahanol ar draws y sir? I ba raddau y mae gwirfoddolwyr yn ymgyfrannu yng ngwaith y BGC? Gallai deall profiadau bywyd pobl roi mewnwelediad pwysig i chi o'r modd y mae gwahanol gymunedau'n gweithredu a ble byddai eich gwasanaethau'n fwyaf defnyddiol. Er enghraifft, a fedrai'r BGC annog a gwobrwyo gweithgaredd cymunedol mewn dulliau a fyddai'n eich helpu i wireddu eich amcanion mewn ardaloedd arbennig? Mae adroddiad y Sefydliad Royal Town Planning, ['Poverty, Place and Inequality'](#), yn cynnwys nifer o argymhellion sy'n egluro pam mae ymagweddau seiliedig ar le yn allweddol ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng ac o fewn cymunedau.

Mae [Ymchwil ar Heneiddio'n Dda yng Nghymru](#) wedi dangos hyn, ac yn awgrymu bod unigrwydd ymhlith pobl hŷn yn ymwneud â faint o gysylltiad sydd rhyngddynt â'u cymunedau'n gorfforol, ac â'r teimlad bod ganddynt rywbeth i'w gyfrannu i'w cymdeithas, sy'n effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u hiechyd corfforol. Er nad yw technoleg yn mynd i ddatrys arwahanrwydd, meddyliwch am yr effaith hirdymor a fedrai gael ar ein poblogaeth. Pobl hŷn yfory yw pobl ieuengach heddiw, â ganddynt lawer mwy o sgiliau technolegol ar flaenau eu bysedd. Yn ein heconomi sy'n rhannu, a allai fod yna atebion rownd y gongl ym maes cronfeydd ceir, neu drafniadaeth gymunedol wedi eu cysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol? Hefyd mae yna eisoes enghreifftiau o drŏns yn darparu cyflenwadau meddygol, a galwadau fideo yn disodli apwyntiadau gydag ymarferydd cyffredinol, ynghyd â dosbarthiadau rhithwir. Mae'r cysyniad o ['Hyperbentref'](#) a ddatblygwyd gan FutureScape yn dychmygu pentrefi wedi eu cysylltu gan eu hasedau, sy'n [annog pobl mewn cymunedau gwledig i elwa ar dechnoleg](#). Sut ydych chi wedi meddwl am y posibiladau hirdymor o fanteisio ar dechnoleg i ddatrys y mater hwn?

Sut ydych chi'n ystyried eich rolau chi eich hunain wrth ymateb i heriau newidiadau demograffig? Rwy'n awyddus i weld BGCau yn edrych ar ymagweddau ataliol seiliedig ar asedau tuag at eu hamcanion drafft. Ar hyn o bryd, prin fod gwasanaethau cyhoeddus a iechyd yn medru ymdopi â'r galw ac, yn anffodus mae llawer yn edrych ar fodelau traddodiadol o ddarparu ymyrraeth 'mewn argyfwng' ar gyfer delio â hyn. Mae un o'ch camau'n ymwneud i raddau helaeth â gweithio'n wahanol i ennyn ymgyfraniad pobl a'u teuluoedd mewn gofal. Dyma lle y dylai eich pum dull o weithio fod yn herio'ch dull o feddwl a bydd gennyf ddiddordeb i weld sut y byddwch yn dylanwadu ar y Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Llesiant Rhanbarthol wrth gyflwyno eich ymateb i'ch amcanion. [Mae'r adroddiad hwn gan y Young Foundation](#) yn rhoi ysbrydoliaeth drwy ei ymagwedd 'Innovating better ways of living late in life', sy'n herio'r seilos traddodiadol yr ydym yn gweithio o'u mewn. Gall creu cymunedau hyblyg cyfeillgar tuag at yr henoed a'u hamgylchedd atal yr angen am ofal iechyd, unigrwydd a iechyd gwael a damweiniau yn y cartref.

Mae gennych rôl mewn cynllunio, tai, a thrawsgludo, ac mewn creu llefydd sy'n addasadwy ac yn medru newid, o leiaf dros y ddwy genhedlaeth nesaf. Mae gan Gymru gyfle i ddatblygu tai sy'n cwrdd yn well â newid demograffig, gan addasu technoleg i alluogi pobl i fyw yn annibynnol am amser hwy. Mae'n galonogol i weld eich bod yn dymuno i Gaerdydd, fel dinas, fod yn gyfeillgar tuag at bobl o bob oed a phobl â dementia. Mae rhaglenni fel [Dinasoedd Cyfeillgar i Oed Sefydliad Iechyd y Byd](#) wedi annog a chydabod y dinasoedd hynny sydd wedi

gwneud eu hunain yn fwy cyfeillgar i oed gan addasu adeiladau, cynlluniau trafndiaeth a rheolau cynllunio, sy'n galluogi pobl hŷn i gadw'n iach ac mewn cysylltiad â phethau sydd o bwys iddynt am amser hwy; [mae Laguna Woods](#), y ddinas gyntaf yn yr UD sydd wedi ei neilltuo i bobl hŷn a maestrefi Marjala yn y Ffindir yn enghreifftiau o ddylunio sy'n addas ar gyfer galluoedd lluosog. Yn ogystal â chyfrifoldebau'n ymwneud â chynllunio a seilwaith dylunio, mae yna nifer o brosiectau arloesol byd-eang sy'n annog tai preifat sy'n rhannu cyfleusterau, tai a gefnogir, a chartrefi sy'n cael eu rhannu. [Mae myfyrwyr yn byw heb dalu rhent mewn cartrefi gofal](#) mewn cyfnewid am gymdeithasu a darparu gofal sylfaenol i'r trigolion hŷn; mae Awstralia a Seland Newydd wedi cyflwyno [cynlluniau RhannuCartref](#), ac, fel rhan o strategaeth ddemograffig y llywodraeth, mae'r [Almaen](#) wedi cyflwyno tai rhyng-genhedlaeth i bobl hŷn a theuluoedd ifanc mewn angen. Yn Singapore, rhoddir grant o \$50,000 i bobl ifanc os yr ydynt yn fodlon symud i fyw gyda'u neiniau a'u teidiau oedrannus. Mae'r rhain i gyd yn fentrau sydd wedi profi eu bod yn effeithiol.

Mae hyn yn dangos cysylltiad hanfodol rhwng amgylchedd eich cymuned â'ch llesiant. Fel y dywed ymchwil ar Heneiddio'n Dda yng Nghymru, mae arwahanrwydd yn ymwneud llawn cymaint â bod ar ben eich hunan yn gorfforol ag ydyw â themlo eich bod yn rhan o rywbeth. Awgrymir gan ymchwil mai [dim ond 5% o bobl dros 65 mlwydd oed](#) sydd â chysylltiad o unrhyw fath â phobl ifancach. [Mae prosiectau rhyng-genedlaethau yn dangos eu bod yn fanteisiol](#) i bobl ifanc a hen, gyda phobl ifanc a hŷn yn mabwysiadu rôl y mentor. Sut fedrwrch chi gydweithio i greu mwy o gyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd? Sut fedr cynnydd mewn ymgyfranaid wella iechyd pobl hŷn yn eich ardal? Mae adroddiad diweddar gan ['Health and Wellbeing in Rural Areas'](#) a gynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn amlygu materion yn ymwneud â chefn gwlad yn Lloegr, ond hefyd yn cynnwys nifer o astudiaethau achos, megis y prosiect Fish Well yn Norfolk, sy'n anelu at wella iechyd a llesiant pobl yn yr ardaloedd lleol hyn. Mae [Cyngor Cymuned Solfach](#) yn Sir Benfro'n enghraifft ddiddorol o'r modd y mae gwirfoddolwyr a phobl hŷn wedi elwa o gynllun i leihau arwahanrwydd a gwella llesiant. Mewn rhai mannau o Gymru, mae'r trydydd sector yn gweithredu fel cysylltwyr cymunedol (sy'n cael eu hariannu gan y Gronfa Gofal Canolraddol) i helpu pobl sy'n agored i niwed o bob oed i gael mynediad i bethau yn eu cymunedau, gan atal yr angen am wasanaethau statudol. Mae yna rai enghreifftiau da o brosiectau sy'n ymroi i ddwyn pobl at ei gilydd i ddysgu sgiliau newydd, cymdeithasu ac adeiladu eu cydnerthedd nes ymlaen yn eu bywydau, megis [Siediau Dynion Cymru](#), sy'n digwydd ar draws Cymru, y gallai'r BGCau eu hannog a'u cynorthwyo.

Mae parhau i ddysgu drwy gydol oes wedi profi i fod yn fanteisiol i lesiant iechyd meddwl a chorfforol pobl, yn ogystal â llesiant cymdeithasol. Mae yna gyfle gwirioneddol yma i chi ystyried sut i facsimeiddio eich cyfraniad i'r nodau llesiant. Sut fedrwrch chi annog gweithgareddau sy'n hybu celf, diwylliant, dysgu'r iaith Gymraeg, gofalu am gynefinoedd naturiol, creu mentrau tyfu bwyd cymunedol, er enghraifft, sy'n helpu gyda llesiant pobl? Gan edrych i'r hirdymor, sut fedr y gweithgareddau hyn atal rhai achosion o afiechyd – rhai sy gelloid eu eu hatal - a ddiodefir gan bobl ac sy'n amharu ar eu hannibyniaeth?

Mewn rhai ardaloedd, mae sefydliadau cymunedol wedi cael eu hariannu i weithredu fel cydlynwyr cymunedol ar gyfer pobl hŷn drwy gyfrwng y Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Ddeddf Llesiant – gan eu cysylltu â gweithgareddau lleol a gwasanaethau yn eu hardal a'u helpu i gadw'n weithgar ac iach. Roedd hwn yn brosiect llwyddiannus; sut y

gellir cyd-ariannu mentrau tebyg a sicrhau cydnabyddiaeth y BGC? Mae gan y trydydd sector gyfoeth o wybodaeth a phrofiad yn hyn o beth. [Cynhyrchodd y CGGC wybodaeth ehangach](#) ar y modd y mae'r trydydd sector yn chwarae rhan wrth gyfrannu i'r Ddeddf, yn cynnwys adnoddau ar y saith nod llesiant. BGCau eraill ag amcanion tebyg yw Sir Fynwy, Conwy/Sir Ddinbych, Castell-nedd Port Talbot, Ynys Môn a Gwynedd a Chasnewydd.

- ***Moderneiddio ac integreiddio'n gwasanaethau cyhoeddus.***

Mae'r heriau a wynebir gan y gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd yn anhygoel ac rwyf yn ymwybodol bod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei gweld fel 'un peth arall' sy'n rhaid i weithwyr y sector cyhoeddus ei gyflawni. Fodd bynnag, buaswn yn eich annog i weld y Ddeddf hon fel modd i'ch galluogi, ac i gyfleu hyn i'ch cydweithwyr. Mae'n herio'r dull yr ydym bob amser wedi ei ddefnyddio i drefnu ein hunain wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau i bobl. Mae'r drafft hwn yn eich annog i gymryd camau i newid y modd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu yn y ddinas, fel eu bod yn gwneud llawer mwy o synnwyr i ddinasyddion Caerdydd. Bwriad y pum dull o weithio a'r saith nod llesiant cenedlaethol yw eich helpu i wneud hyn drwy eich annog i feddwl am y modd y gall pethau fod yn fwy integredig, drwy gydweithio gydag eraill. Gallai hyn fod o fantais ar draws gwahanol wasanaethau, ond hefyd i fywydau pobl, y gallwch eu deall yn unig drwy ennyn ymgyfraniad 'pobl go iawn' yng ngwaith bob dydd eich sefydliadau.

Fel cyrff cyhoeddus, mae gennych lawer o gyfrifoldebau statudol a rydych yn darparu nifer mawr o wasanaethau yn ddyddiol. Nid yw dyletswyddau'r Ddeddf wedi eu bwridau i fod yn faich ychwanegol, ond yn ffordd o facsimeiddio manteision y gweithgareddau hyn. Dywedodd fy nhim wrthyf sut y mae hyn eisoes yn cael ei sylweddoli mewn rhai meysydd busnes yng Nghaerdydd, fel, er enghraifft, yng Nghanolfan Arloesir Ddinas a'r gwaith yr ydych yn ei wneud ar y cyd â llawer o sefydliadau yn y ddinas. Bydd gennyf ddiddordeb i weld sut mae'r Ddeddf yn cael ei chymhwyso'n ymarferol gan holl aelodau'r BGC dros y flwyddyn sy'n dod ar draws saith swyddogaeth gorfforaethol y Ddeddf a sut mae eich amcanion chi eich hunain yn adlewyrchu gwaith y BGC a sut yr ydych yn defnyddio eich BGC fel her i adrannau eraill, grwpiau partneriaeth a sefydliadau, ar gyfer cwrdd â'r amcanion hyn.

Rwyf wedi rhoi llawer o gyngor yn y llythyr hwn ac yn fy adroddiad 'Llesiant yng Nghymru' ar yr union thema hon. Buaswn yn awgrymu bod angen i chi fod yn ddewr yn awr wrth gymryd camau i arwain Cymru wrth iddi gylfawni hyn; rhannu eich camgymeriadau a'ch llwyddiannau gyda fy swyddfa, a gydag eraill, a gobeithio creu gwell Caerdydd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae BGCau eraill sy'n ymroi i greu newid sefydliadol drwy eu hamcanion yn cynnwys Torfaen, sy'n edrych ar ddatblygu sefydliadaol yng nghyd-destun y Ddeddf, Sir Benfro, Caerffili a Sir Gaerfyrddin. Eto, byddai fy swyddfa yn hapus i'ch cysylltu petaech o'r farn y byddai hyn yn ddefnyddiol.



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Gobeithiaf eich bod o'r farn fod y cyngor hwn yn ddefnyddiol i chi wrth i chi symud ymlaen i gyhoeddi eich cynllun llesiant ar gyfer ymgynghori ffurfiol. Os gwelwch yn dda cysylltwch â fy nhîm os yr ydych angen manylion cyswllt pellach ar gyfer unrhyw un o'r sefydliadau a'r adroddiadau a grybwyllwyd yn y llythyr hwn.

Rwyf hefyd yn dysgu'r ffordd orau o gynghori, cynorthwyo a monitro sut mae cyrff cyhoeddus yn ceisio defnyddio'r pum dull o weithio a maccsimeiddio'u cyfraniad i'r saith nod llesiant, felly buaswn yn croesawu adborth oddi wrthyd chi, eich swyddogion cynorthwyol a Phwyllgor Craffu BGC Caerdydd, ar y modd yr wyf wedi dewis mynd ati i ymdrin â'r ddyletswydd statudol hon a'r cyngor yr wyf wedi ei roi.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cynllun llesiant drafft ac os gwelwch yn dda cadwch mewn cysylltiad â mi a fy nhîm.

Dymuniadau gorau,

Sophie Howe



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT

cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales

Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT

contactus@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales